
## Sut i gyrraedd yno:

**Trafnidiaeth gyhoeddus:** Cyfeiriwch at wefan Cyngor Sir Benfro: www.sir-benfro.gov.uk/llwybrau-bysiau-ac-amserlenni/llwybrau-bysiau-rhestr-yr-holl-fysiau

**Eich trafnidiaeth eich hun:** Gogledd Sir Benfro; yn nhref Trefdraeth. Dewch ar gefnffordd yr A487 a dilyn yr arwyddion i faes parcio Parrog.




**Cyfeirnod y man cychwyn:** SN051396

**Toiledau:** ym maes parcio Trefdraeth Parrog.

**Sylwer:** gellir ond cerdded y daith hon pan fydd y llanw'n isel, felly holwch am amserlen y llanw cyn mentro allan.

Cynhyrchwyd taflen ar wahân gan Grŵp Llwybrau Trefdraeth gyda'r daith gerdded hon ynddi. Mae ar gael o'r Ganolfan Groeso ac o Gaffi Morawelon. Mae fersiwn Braille ar gael hefyd, ond mae'n rhaid i chi ei dychwelyd.

# Parrog Trefdraeth i'r Cwm

**Taith fynediad hwylus:** 0.8 milltir (1.3 km).

**Cymeriad:** taith hamddenol, ar lwybrau ag arwyneb yn bennaf, ar hyd Bae Trefdraeth. Golygfeydd gwych o'r aber a'r arfordir.



**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
**Pembrokeshire Coast National Park**

## Disgrifiad

Mae'r daith hon yn dilyn ymyl deheuol Bae Trefdraeth, o Drefdraeth Parrog allan tua'r môr. Mae yna olygfeydd gwych ar draws Traeth Trefdraeth at y clogwyni ar ochr arall y bae.

Roedd Trefdraeth Parrog yn arfer bod yn borthladd prysur. Adeiladwyd dros 50 o gychod hwylio ar hyd aber y Nyfer, ac roedd gan fasnachwyr lleol gyfranddaliadau mewn dysenni o gychod a fasnachai ar hyd Môr Iwerddon a thu hwnt. Cadwyd un o'r hen stordai ar y Parrog fel cartref clwb cychod y dref.

## Cyfarwyddiadau

Trowch i'r dde allan o'r maes parcio ac ewch i fyny'r ramp ar y dde (graddiant o 1:8 am 7 metr) arno i'r cawsai (lled 97cm) ac yna I lawr (graddiant o hyd at 1:8 am 6 metr) ar lwybr palmantog (dim canllaw ar 1.5 metr olaf y ramp).



Dilynwch y llwybr o flaen y tai. Mae yna raddiant croes byr o 1:10 ble mae'r llwybr yn mynd i'r dde.

Pan fydd y llwybr yn cyrraedd Rock House (graddiant o hyd at 1:7 am 7 metr) trowch i'r dde ac yna i'r chwith i'r blaendraeth ac ymunwch â'r llwybr concrid am ychydig bach. Mae'r daith yn mynd yn ôl at y blaendraeth eto, ac er bod y tywod yn gadarn mae yna raddiant croes o hyd at 1:15 (gan ddibynnu ar y tymor) am 23 metr.


Mae arwyneb y llwybr ar hyd y blaendraeth yn amhenodol ac wedi'i lunio o dywod, graean bras a chreigwely anwastad. Ni ellir mynd ar hyd-ddo pan fydd y llanw'n uchel ac mae'r arwyneb yn gallu newid oherwydd y llanw a stormydd. (Gwiriwch amserau'r llanw)

Mae yna ramp byr sy'n 1:8 I fyny o'r blaendraeth am 2 metr, ac yna mae'r llwybr yn mynd I fyny'r tyle'n raddol (graddiant o 1:15 am 30 metr ac yna 1:8 am 20 metr ac yn olaf 1:15 am 23 metr) ac yna mae'n dod yn wastad.

Parhewch i ddilyn llwybr amlwg Llwybr yr Arfordir. Ar ôl yr ail sedd mae'r llwybr yn mynd i lawr y tyle gyda dwy adran sy'n 1:6: y cyntaf am 14 metr a'r ail am 5 metr. Ar ôl hyn, mae'r llwybr yn mynd I fyny'r tyle (47 metr ar radiant o 1:10 i 1:7, ac yna 10 metr sy'n 1:15 ).

Mae'r llwybr nawr yn wastad, anwastad ac yn culhau i 700mm mewn mannau. Mae'n parhau at ardal eistedd a golygfan ar hyd llwybr bordiau.Mae'r llwybr bordiau yn mynd i fyny ramp (graddiant o 1:12 am 4.1 metr) yn wastad am 6 metr ac yn mynd i lawr ramp (graddiant o 1:12 am 4.1 metr). Mae gan yr olygfan arwyneb gwair anwastad gyda 4 mainc.

Ewch yn ôl yr un ffordd.


Tywodydd Trefdraeth
Afon Nyfer
Clwb Cychod Trefdraeth
Parrog
G
0
100
200 m
Trefdraeth
Abergwaun
Aberteifi
ALLWEDD
Arwyneb caled a llyfn
Arwyneb cerrig cywasgedig
Tywod cadarn/arwyneb craig
Llwybr cyhoeddus
Graddiant serth, mwy na 1:12
Graddiant, rhwng 1:20 & 1:12
Graddiant croes